**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

1 Mai 2019

Annwyl Lesley,

**Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2019**

Ystyriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Reoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2019 yn ei gyfarfod ar 29 Ebrill 2019.

Gwnaethom nodi dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, yr oedd yr ail ohonynt yn cwestiynu a oes angen mewnosod rheoliadau 36(3) a 37(4) i Reoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013 (Rheoliadau 2013).

Mae rheoliad 3(b) yn mewnosod rheoliad newydd 4(2) yn Rheoliadau 2013. Effaith rheoliad newydd 4(2) yw gwneud Rhannau 3-8 o Reoliadau 2013 yn gymwys "mewn perthynas â daliad newydd".

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch pam mae angen mewnosod rheoliadau 36(3) a 37(4) yn Rheoliadau 2013, pan ddylai'r cyfeiriad at 'daliad' yn rheoliadau 36(1) a 37(1) gynnwys 'daliad newydd' yn rhinwedd rheoliad newydd 4(2).

Yn ystod ein cyfarfod, gwnaethom ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau hyn. O ran yr ail bwynt adrodd, nodwyd yn yr ymateb:

> "Er ein bod yn cytuno bod y cyfeiriad at 'daliad' yn rheoliadau 36(1) a 37(1) yn cynnwys 'daliad newydd' yn rhinwedd y rheoliad 4(2) newydd, bwriadwn osgoi unrhyw amheuaeth a gosod rhwymedigaeth y tro cyntaf i gofnodi'r materion yn y lle cyntaf ar gyfer daliad sydd newydd ei ddynodi neu ddaliadau sydd newydd eu dynodi."

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Byddem yn hoffi cael eglurhad pellach ynghylch beth yw'r amheuaeth a allai godi mewn perthynas â rheoliadau 36(3) a 37(4) o ganlyniad i reoliad newydd 4(2). Hefyd, os oes amheuaeth o ran y rhwymedigaethau yn rheoliadau 36(3) a 37(4), a wnewch esbonio pam yr ydych yn ystyried nad oes amheuaeth hefyd ynghylch yr holl rwymedigaethau eraill a fydd yn gymwys i ddaliadau newydd.

Anfonir copi o'r llythyr hwn hefyd at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English